| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 6 Rhagfyr, 2023 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2024 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu am 2024.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu'n adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedeion yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Gan fod Llywodraeth Cymru'n dal i weithio ar y Papur Gwyn; Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) ac nid yw'n hysbys pryd fydd y darn o waith hwn wedi'i gwblhau, nid oes cyfeiriad at hyn yn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol sydd ynghlwm, fodd bynnag, unwaith y bydd canlyniad y darn o waith hwn yn hysbys, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'n Haelodau.

3.3 Gweler Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ddiwygiedig yn Atodiad A.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad, ac

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau’n ystyried ac yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2024.